# Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Gyfraith yr UE a Ddargedwir 1829/2003 a 619/2011 ac estyniad i'r cyfnod goddefiant ar gyfer lefelau bach iawn o Ms1×Rf1, Ms1×Rf2 a Topas 19/2, sef cynhyrchion rêp had olew GM a dynnwyd yn ôl

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 20 Medi 2022
Dyddiad cau: 4 Hydref 2022

**Crynodeb o'r ymatebion**

### England, Scotland and Wales

PDF
Gweld Summary of stakeholder responses for the consultation on amendments to Retained EU Law 1829/2003 and 619/2011 and extension to t as PDF(Open in a new window) (146.08 KB)

## Crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion gan randdeiliaid i'r ymgynghoriad ar ddiwygiadau i Gyfraith yr UE a Ddargedwir 1829/2003 a 619/2011 ac estyniad i'r cyfnod goddefiant ar gyfer lefelau bychain iawn o Ms1×Rf1, Ms1×Rf2 a Topas 19/2, sef cynhyrchion rêp had olew GM a dynnwyd yn ôl

## I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Datblygwyr yn y diwydiant organebau a addaswyd yn enetig (GMO)
- Cyrff y diwydiant masnach grawn
  Awdurdodau gorfodi
  Masnachwyr rêp had olew
  Prynwyr cynhyrchion rêp had olew
  Rhanddeiliaid eraill â buddiant sydd â diddordeb yn y polisi a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a bwyd anifeiliaid GM (wedi'u haddasu'n enetig) a'r gadwyn gyflenwi rêp had olew.

## Pwnc yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag adfer a chywiro diffygion mewn pwerau yng Nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir (REUL) y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad (EU) 1829/2003, a chaniatáu estyniad i'r cyfnod goddefiant ar gyfer lefelau bach iawn o dri chynnyrch

GMO a dynnwyd yn ôl, sef rêp had olew Ms1× Rf1, Ms1×Rf2 a Topas 19/2, ym Mhrydain Fawr.

Yn ogystal, mae angen diwygiad pellach i gywiro methiant parhaus deddfwriaeth yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol oherwydd anghysondeb rhwng y cyfnod trosiannol yn Erthygl 2(b) o Reoliad (EC) a ddargedwir 619/2011 a'r cyfnodau goddefiant ar gyfer y tri GMOs a dynnwyd yn ôl. Mae angen cywiro'r anghysondeb hwn a diwygio'r cyfnodau hyn fel eu bod yn cyd-fynd.

## Diben yr ymgynghoriad

Darperir y cynigion sy'n ymwneud ag estyn y cyfnod goddefiant a diwygiadau pellach i gyfraith yr UE a ddargedwir, (a'r effaith bosibl) – gweler y pecyn ymgynghori. Rydym yn ceisio eich adborth ar y cynigion hyn ac unrhyw dystiolaeth bellach sydd gennych ar yr effeithiau y dylem eu hystyried.

## Pecyn ymgynghori

Mae'r pecyn ymgynghori hwn yn darparu'r wybodaeth gefndirol a'r manylion y bydd angen i chi eu gwybod er mwyn ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad hwn.

Pecyn ymgynghori ar ddiwygiadau i Gyfraith yr UE a Ddargedwir 1829/2003 a 619/2011 ac estyniad i'r cyfnod goddefiant ar gyfer lefelau bach iawn o gynhyrchion rep had olew GM a dynnwyd yn ol, sef Ms1×Rf1, Ms1×Rf2 a Topas 19/2

## Sut i ymateb

Ymatebwch i'r ymgynghoriad drwy e-bostio eich ymateb i: RPconsultations@food.gov.uk

Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli), ac ym mha wlad rydych wedi'ch lleoli.